Active citizenship for Wales and the world

CEWC–CYMRU NEWSLETTER WINTER 08/09

CEWC CYMRU

OBAMA AND ENGLAND – WINNERS IN THE BATTLE OF IDEAS

Many people are talking about the election of Barack Obama as US President as a momentous event. However, few people got the close-up view of campaign fever experienced by 5 Welsh debaters when they travelled to Washington D.C. in September.

Wales's team at this year's **World Schools Debating Championships** comprised Ellen Robertson and Eleanor Francis (Pencoed School), Jonathan Worgan (King Henry VIII School, Abergavenny), Cerith Evans (Gorseinon College, Swansea) and James Staniforth (Bishop of Llandaff High School, Cardiff). After months of preparation with coach Lewis Turner, they took part alongside 37 other countries in the largest Championships ever. The team achieved a ranking of 14th by winning 5 of its 8 preliminary round debates, covering topics such as scientific ethics and environmental abuses by multinational companies. However, they were knocked out in the next round by England, who went on to win the competition.

The next World Championships take place in Athens in February 2009, and CEWC-Cymru will once again be selecting and helping to train the Wales team.

MEANWHILE, BACK AT HOME…

Haberdashers' Monmouth School for Girls won the Final of this year's **Wales Schools Debating Championships**, which took place on 28 November at the Temple of Peace, Cardiff. The team of Preethika Mahalingam and Emily Collier overcame Martyn John and James Staniforth of Bishop of Llandaff High School (Cardiff), on the motion *"This House believes that President Obama is our best hope for improved international relations"*. 50 schools and colleges took part in this year's Championships.

Prior to the tournament, 120 students took part in our two **Debate Training Days**, held at the National Assembly for Wales and Rhyl Town Hall. They benefited from CEWC-Cymru's new debate training DVD, which contains a full-length, professionally filmed debate with explanatory subtitles.

If you would like to purchase the DVD (at £8 including postage and packing) or arrange a debating workshop, e-mail **cewc@wcia.org.uk**.

www.cewc-cymru.org.uk

GET READY FOR CEWC-CYMRU'S SPRING 2009 EVENTS

FLYING THE UN FLAG

Our **Model United Nations** conferences enable students to discuss important international issues in a setting that encourages constructive dialogue, rather than competitive debate. Students work in teams of 3, with most representing a country or non-governmental organisation. The idea is to come up with internationally acceptable solutions to a problem, such as protecting human rights while combating terrorism. Next term's events take place as follows:

- County Hall, Cwmbran – 4 March 2009
- Penallta House, Ystrad Mynach – 6 March 2009
- County Hall, Mold – 19 March 2009
- County Hall, Caernarfon – 20 March 2009

EUROPEAN MATTERS

EUROPEAN YOUTH PARLIAMENT
PARLEMENT EUROPÉEN DES JEUNES

European Youth Parliament (EYP) is a more competitive event, with teams of Year 12 students representing different European committees. Teams are judged on their presentation of a proposition or opposition speech on a prepared resolution, but more importantly on their general contributions to debate. One team is then selected to represent their region at a UK-wide event the following September.

Our EYP South Wales Forum takes place at the National Assembly for Wales, Cardiff on 17 March. Invitations were distributed in December, and we advise booking early as we can only accommodate 10 schools or colleges.

The EYP North Wales Forum took place in Colwyn Bay in November, and was won by Elfed High School, Buckley.

TRAINING FOR DEEPER THINKING

Our training in Philosophy for Children (P4C) is proving increasingly popular, so we have opened registration for a further accredited course in Cardiff. Primary school teachers throughout Wales are invited to attend the 2-day course on 2 and 3 March at the Temple of Peace, Cardiff. The programme includes:

- Introduction to the theory and benefits of P4C
- Practical sessions – learn through trying out the P4C method
- Effective facilitation of philosophical enquiry
- Guidance on curriculum links and the timetabling of P4C
- Advice on useful resources
- Opportunity to watch videos of P4C in action

This non-residential course is charged at **£225 per person** (£160 for a 2nd or subsequent teacher from the same school). This covers 2 days of training, 2 handbooks, refreshments and other materials. Our trainer, Martin Pollard, is accredited by SAPERE, the UK's co-ordinating body for P4C activities. Contact **martinpollard@wcia.org.uk** for more details.

INSIDE:

poster on Conflict in the Congo

ACTION FROM THE ASSEMBLY

A COMMON UNDERSTANDING OF ESDGC

As colleagues may know, schools in Wales are now required to consider the place of Education for Sustainable Development and Global Citizenship (ESDGC) in all curriculum areas. ESDGC is an over-arching aim of the new national curriculum, and Estyn is expected to comment on its provision in school inspection reports.

Because ESDGC covers a wide range of important issues – including poverty, cultural identity and climate change – some schools find it difficult to implement it effectively. A new Welsh Assembly Government document aims to improve this situation. Titled ***ESDGC – A Common Understanding for Schools***, it:

- Introduces a 'whole school approach' to ESDGC and identifies its importance within school leadership and management, learning and teaching, and other areas
- Highlights the role of ESDGC in developing skills such as Thinking and Communication
- Provides a framework of possible activities to support ESDGC at all stages – from Foundation Phase to Post-16
- Guides schools on evaluating progress in ESDGC

Copies of *ESDGC – A Common Understanding for Schools* (document no. 065/2008) can be obtained by contacting Jane Nettleton on 029 2080 1402 or **esdgc@wales.gsi.gov.uk**. There are also documents covering ESDGC for teacher trainees and new teachers (066/2008), the further education sector (067/2008) and the youth work sector (068/2008).

ONE WALES, ONE PLANET – GET YOUR VIEWS HEARD

The Assembly is also inviting people's comments on its new **Sustainable Development Scheme**. The Scheme is a legal requirement and explains how ministers intend to promote sustainable development in Wales. The aim is to "improve the well-being of the people of Wales and move us to using only our fair share of the earth's finite resources".

Of particular interest to CEWC-Cymru is Chapter 6 of the consultation document, titled *Learning for Life*. This outlines the Assembly's commitment to "intensify support for Education for Sustainable Development and Global Citizenship initiatives across all learning sectors". As part of this commitment, we want to ensure that the Assembly continues to support charities such as CEWC-Cymru. Our role is vital in helping schools to deliver ESDGC effectively, whether through events, classroom workshops or provision of training for teachers.

We therefore encourage supporters to contribute to the consultation. Please highlight the role played by the voluntary sector in assisting schools' delivery of ESDGC, by providing a written submission (however short) before the closing date of **4 February 2009**. The consultation document – which includes instructions on submitting your ideas – can be downloaded from **http://new.wales.gov.uk/consultations/sustainable/?lang=en**. For further guidance, or to send a short message of support, please e-mail **martinpollard@wcia.org.uk**.

CEWC-CYMRU, TEMPLE OF PEACE, CATHAYS PARK, CARDIFF CF10 3AP
TEL (029) 2022 8549 FAX (029) 2064 0333 E-MAIL cewc@wcia.org.uk

Reg. charity no. 1048759

Design elfen.co.uk

Dinasyddiaeth weithredol i Gymru ac i'r byd

CEWC–CYMRU CYLCHLYTHYR GAEAF 08/09

CEWC CYMRU

OBAMA A LLOEGR – YN ENNILL YN Y FRWYDR SYNIADAU

Yn ôl llawer, mae ethol Barack Obama yn Arlywydd yr Unol Daleithiau yn ddigwyddiad o bwys. Ond ychydig iawn o bobl sydd wedi bod mor agos at gyffro ymgyrch arlywyddiaethol â 5 dadleuwr o Gymru pan fuont yn ymweld â Washington D.C. ym mis Medi.

Roedd tîm Cymru ym Mhencampwriaethau Dadlau Ysgolion y Byd eleni yn cynnwys Ellen Robertson ac Eleanor Francis (Ysgol Pen-coed), Jonathan Worgan (Ysgol y Brenin Harri'r VIIIfed, Y Fenni), Cerith Evans (Coleg Gorseinon, Abertawe) a James Staniforth (Ysgol Uwchradd Esgob Llandaf, Caerdydd). Wedi misoedd o waith paratoi gyda'u hyfforddwr, Lewis Turner, buont yn cymryd rhan ymhlith 37 o wledydd eraill yn y Pencampwriaethau mwyaf erioed. Cyrhaeddodd y tîm y 14eg safle trwy ennill 5 o'i 8 dadl yn y cymal rhagarweiniol, gan ymdrin â phynciau fel moeseg wyddonol a thrais yn erbyn yr amgylchedd gan gwmnïau mawr. Serch hynny, cawsant eu llorio yn y rownd nesaf gan Loegr, a aeth ati wedyn i ennill y gystadleuaeth.

Cynhelir y Pencampwriaethau Byd nesaf yn Athen ym mis Chwefror 2009, ac unwaith eto bydd CEWC-Cymru yn dethol aelodau tîm Cymru ac yn cynorthwyo i'w hyfforddi.

YN Y CYFAMSER, NÔL YNG NGHYMRU FACH…

Haberdashers' Monmouth School for Girls oedd enillwyr Gornest Derfynol **Pencampwriaethau Dadlau Ysgolion Cymru** eleni. Cynhaliwyd y gystadleuaeth ar 28 Tachwedd yn y Deml Heddwch, Caerdydd. Bu tîm Preethika Mahalingam ac Emily Collier yn drech na Martyn John a James Staniforth o Ysgol Uwchradd Esgob Llandaf (Caerdydd), ar y cynnig *"This House believes that President Obama is our best hope for improved international relations"*. Bu 50 o ysgolion a cholegau'n cymryd rhan yn y Pencampwriaethau eleni.

Cyn yr ornest, bu 120 o ddisgyblion yn cymryd rhan yn y ddau **Ddiwrnod Hyfforddiant Dadlau** a gynhaliwyd yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a Neuadd y Dref, Y Rhyl. Cawsant y pleser o wylio DVD hyfforddi ar gyfer dadlau newydd CEWC-Cymru, sy'n cynnwys dadl lawn-hyd, wedi ei ffilmio'n broffesiynol, gydag isdeitlau eglurhaol.

Os carech brynu'r DVD (am £8, gan gynnwys pris cludiant) neu drefnu gweithdy dadlau, e-bostiwch **cewc@wcia.org.uk**.

www.cewc-cymru.org.uk

PARATOI AR GYFER DIGWYDDIADAU CEWC-CYMRU, GWANWYN 2009

HEDFAN BANER Y CU

Mae ein cynadleddau **Model y Cenhedloedd Unedig** yn galluogi disgyblion a myfyrwyr i drafod materion rhyngwladol o bwys mewn cyd-destun sy'n hybu deialog adeiladol yn hytrach na dadl gystadleuol. Bydd disgyblion yn gweithio bob yn dîm o 3, a bydd y rhan fwyaf yn cynrychioli gwlad neu gorff anllywodraethol. Y nod yw cael atebion sy'n dderbyniol ar y lefel ryngwladol i ryw broblem benodol, fel diogelu hawliau dynol wrth frwydro yn erbyn terfysgaeth. Dyma ddigwyddiadau'r tymor nesaf:

- Neuadd y Sir, Cwmbrân – 4 Mawrth 2009
- Tŷ Penallta, Ystrad Mynach – 6 Mawrth 2009
- Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug – 19 Mawrth 2009
- Neuadd y Sir, Caernarfon – 20 Mawrth 2009

MATERION EWROPEAIDD

EUROPEAN YOUTH PARLIAMENT
PARLEMENT EUROPÉEN DES JEUNES

Mae'r **Senedd Ieuenctid Ewropeaidd (SIE)** yn ddigwyddiad mwy cystadleuol, gyda thimau o ddisgyblion Blwyddyn 12 yn cynrychioli gwahanol bwyllgorau Ewropeaidd. Beirniadir y timau yn ôl eu cyflwyniad o gynnig neu araith yn gwrthwynebu cynnig a baratowyd o flaen llaw, ond yn bwysicaf fyth, ar eu cyfraniad yn gyffredinol i'r ddadl. Dewisir un tîm wedyn i gynrychioli eu rhanbarth mewn digwyddiad sy'n cynnwys timau o'r DU benbaladr ym mis Medi'r flwyddyn honno.

Cynhelir Fforwm De Cymru SIE yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd ar 17 Mawrth. Dosbarthwyd y gwahoddiadau ym mis Rhagfyr, ac rydym yn argymell i chi archebu'n gynnar – dim ond lle i 10 ysgol neu goleg sydd.

Cynhaliwyd Fforwm Gogledd Cymru SIE ym Mae Colwyn ym mis Tachwedd. Yr enillwyr oedd Ysgol Uwchradd Elfed, Bwcle.

HYFFORDDI I FEDDWL YN DDYFNACH

Mae ein hyfforddiant ym maes **Athroniaeth i Blant (P4C)** yn cynyddu o ran poblogrwydd, felly rydym bellach yn cofrestru ar gyfer cwrs achrededig pellach yng Nghaerdydd. Gwahoddir athrawon ysgol gynradd trwy Gymru i fynychu'r cwrs 2-ddiwrnod ar 2 a 3 Mawrth yn y Deml Heddwch, Caerdydd. Mae'r rhaglen yn cynnwys:

- Cyflwyniad i theori a manteision P4C
- Sesiynau ymarferol – dysgu trwy roi cynnig ar y dull P4C
- Hwyluso ymholi athronyddol yn effeithiol
- Cyngor ar gysylltiadau â'r cwricwlwm ac amserlennu P4C
- Cyngor ar adnoddau defnyddiol
- Cyfle i wylio fideos o P4C ar waith

Cwrs dibreswyl yw hwn a'r gost yw **£225 y pen** (£160 yr un am bob athro pellach o'r un ysgol). Mae hyn yn cynnwys 2 ddiwrnod o hyfforddiant, 2 lawlyfr, lluniaeth ysgafn a deunyddiau eraill. Achredir ein hyfforddwr, Martin Pollard, gan SAPERE, y corff sy'n cydlynu digwyddiadau P4C yn y DU. Cysylltwch â **martinpollard@wcia.org.uk** am ragor o fanylion.

TU FEWN:
poster am Gwrthdaro yn y Congo

Dylunio elfen.co.uk

Y CYNULLIAD YN GWEITHREDU

CYD-DDEALLTWRIAETH YM MAES ADCDF

Fel y gwyddoch, mae'n siŵr, mae gofyn bellach i ysgolion yng Nghymru ystyried lle Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF) ym mhob un o feysydd y cwricwlwm. Mae ADCDF yn nod trosfwaol i'r cwricwlwm cenedlaethol newydd, a'r disgwyl yw y bydd Estyn yn cynnig sylwadau ar y ffordd y'i darperir yn ei adroddiadau arolwg ar ysgolion.

Oherwydd bod ADCDF yn cynnwys amrywiaeth eang o faterion o bwys – gan gynnwys tlodi, hunaniaeth ddiwylliannol a newid yn yr hinsawdd – mae rhai ysgolion yn ei gweld hi'n anodd ei gweithredu yn effeithiol. Mae dogfen newydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn amcanu gwella'r sefyllfa. Teitl y ddogfen yw ***ADCDF – Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion.*** Mae'n:

- Cyflwyno 'ymagwedd ysgol gyfan' i ADCDF ac yn nodi ei bwysigrwydd o fewn arweinyddiaeth a rheolaeth ysgolion, dysgu ac addysgu, a meysydd eraill
- Dwyn sylw at ran ADCDF wrth ddatblygu sgiliau fel Meddwl a Chyfathrebu
- Darparu fframwaith o weithgareddau posibl i gefnogi ADCDF ar bob cam – o'r Cyfnod Sylfaen i OI-16
- Cynnig arweiniad i ysgolion wrth iddynt werthuso cynnydd ym maes ADCDF

Mae copïau o *ADCDF – Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer Ysgolion* (dogfen rhif 065/2008) ar gael trwy gysylltu â Jane Nettleton ar 029 2080 1402 neu **esdgc@wales.gsi.gov.uk**. Mae yna ddogfennau ar gael hefyd sy'n sôn am ADCDF o safbwynt athrawon dan hyfforddiant ac athrawon newydd (066/2008), y sector addysg bellach (067/2008) a'r sector gwaith ieuenctid (068/2008).

CYMRU'N UN: CENEDL UN BLANED – LLEISIWCH EICH BARN

Mae'r Cynulliad hefyd yn gwahodd sylwadau ar ei **Gynllun Datblygu Cynaliadwy** newydd. Mae'r Cynllun yn ofyniad cyfreithiol ac mae'n egluro sut mae gweinidogion yn bwriadu hyrwyddo datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Y nod yw "gwella lles pobl Cymru a'n symud ni at ddefnyddio ein cyfran deg yn unig o adnoddau cyfyngedig y byd".

Mae Pennod 6 o'r ddogfen ymgynghorol, *Dysgu i Fyw*, o ddiddordeb arbennig i CEWC-Cymru. Mae hyn yn amlinellu ymrwymiad y Cynulliad i "ddwysau'r gefnogaeth ar gyfer mentrau ym maes Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang ar draws pob sector dysgu". Yn rhan o'r ymrwymiad hwn, rydym am sicrhau bod y Cynulliad yn parhau i gefnogi elusennau fel CEWC-Cymru. Mae gennym ran hollbwysig i'w chwarae wrth gynorthwyo ysgolion i ddarparu ADCDF yn effeithiol, boed hynny drwy gyfrwng digwyddiadau, gweithdai yn yr ystafell ddosbarth neu hyfforddiant ar gyfer athrawon.

Rydym felly yn annog ein cefnogwyr i gyfrannu at yr ymgynghoriad. Gofynnwn i chi ddwyn sylw at y rhan a chwaraeir gan y sector wirfoddol wrth gynorthwyo ysgolion i ddarparu ADCDF, trwy anfon cyflwyniad ysgrifenedig (pa mor fyr bynnag y bo) cyn y dyddiad cau, sef **4 Chwefror 2009**. Mae modd lawrlwytho'r ddogfen ymgynghorol – sy'n cynnwys cyfarwyddiadau ar sut i gyflwyno'ch syniadau – o **http://new.wales.gov.uk/consultations/sustainable/?lang=cy.** Am ragor o arweiniad, neu i anfon neges fer i ddangos eich cefnogaeth, e-bostiwch **martinpollard@wcia.org.uk** os gwelwch yn dda.

CEWC-CYMRU, Y DEML HEDDWCH, PARC CATHAYS, CAERDYDD CF10 3AP
FFÔN (029) 2022 8549 FFACS (029) 2064 0333 E-BOST cewc@wcia.org.uk

Elusen gof. rhif 1048759